



# Ysgol Cymerau

## Polisi Cwricwlwm

Mae'n ofynnol i bob corff llywodraethu, wrth ddatgan eu nod a'u hamcanion ar gyfer cwricwlwm yr ysgol, ystyried yn ofalus ddatganiadau'r Adran Addysg, a chynllunio o fewn fframwaith ac amcanion cyffredinol a phenodol polisiau Cyngor.

Cyfrifoldeb penaethiaid, gyda chydweithrediad eu hathrawon, yw'r drefniadaeth gwricwlaidd o fewn yr ysgol, a disgwylir iddynt wneud hynny o fewn polisiau'r Awdurdod a'r corff llywodraethol, gan ddefnyddio'r adnoddau dynol a materol sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

### Nod

Gwnaed newidiadau sylweddol i Gwricwlwm 2008 a bydd ymateb i'r her i gynllunio a darparu profiadau priodol, perthnasol ac ysgogol i bob dysgwr yn golygu

- i) Canolbwyntio ar y dysgwr.
- ii) Sicrhau bod y weithred o ddatblygu sgiliau priodol yn cael eu plethu drwy'r holl gwricwlwm.
- iii) Canolbwyntio ar barhad a dilyniant 3-19.
- iv) Rhoi sylw i ddatblygu Llythrennedd a Rhifedd yn Drawsgwricwlaidd gan ddilyn canllawiau'r 'Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd'.
- v) Bod yn hyblyg.
- vi) Bod yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain.
- vii) Cefnogi polisi'r Llywodraeth gan gynnwys dwyieithrwydd, y Cwricwlwm Cymreig/Cymru/Ewrop a'r Byd, cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd, addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a'r byd gwaith ac entrepreneuriaeth.

### Amcanion Cyffredinol

1. Cynnal a chodi safonau cyflawniad disgyblion ym mhob maes cwricwlaidd yn unol â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac agweddau eraill pwysig – gweler Nod uchod.
2. Dylai'r Cwricwlwm alluogi pob dysgwr i ddysgu mewn modd ac ar gyflymder sy'n caniatâu iddynt lwyddo. Mae angen i ysgolion:
  - \* hyrwyddo cynhwysiant a chael plant i ymwneud ag addysg a dysgu
  - \* sicrhau y caiff anghenion pob dysgwr eu diwallu'n effeithiol.
  - \* adnabod cryfderau dysgwyr a'r meysydd i'w gwella drwy ddefnyddio technegau asesu effeithiol.
  - \* defnyddio'r wybodaeth hon fel ffynhonnell ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, ac addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb ag aeddfedrwydd a gallu'r dysgwr sy'n datblygu o hyd.
3. Os ydynt am wneud cynnydd, sicrhau bod dysgwyr yn gwybod
  - \* **ble** maen nhw yn y continwwm dysgu
  - \* **ble** mae angen iddynt anelu ato
  - \* **pa** ffordd sydd orau i gyrraedd yno
4. Meithrin cymdeithas wâr sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesol a dyngarol, gan ddatblygu hunan- barch a goddefgarwch tuag at eraill.
5. Yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod, datblygu gallu'r disgyblion i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
6. Gosod seiliau ar gyfer sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn yr ysgol.
7. Sicrhau cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol, cyfoethog a gwahaniaethol.
8. Galluogi pob unigolyn i feithrin gwybodaeth, agweddau, cysyniadau a medrau sy'n berthnasol i fywyd cyfoes, i ddysgu am oes ac i ddefnyddio amser hamdden yn greadigol.
9. Sicrhau cyfleoedd cyfartal a mynediad i'r cwricwlwm cyflawn.

### Amcanion Penodol

1. Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn ei bywyd a'i gwaith ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.
2. Meithrin parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir, cred a diwylliant a sicrhau cyfleoedd cyfartal beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabled.
3. Sicrhau y datblygir gallu pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfryngau dysgu yn unol â Pholisi Iaith yr Adran Addysg.
4. Sicrhau bod dilyniant a datblygiad yn y profiadau a'r gweithgareddau a ddarperir a bod cyfran helaeth o'r profiadau hynny yn adlewyrchu natur bywyd a diddordebau'r disgyblion.

5. Sicrhau bod pob maes yn rhoi sylw i'r Cwricwlwm Cymreig.
6. Galluogi disgyblion i ddatblygu meddwl i bennu'r broses, y strategaeth a meini prawf llwyddiant, i ddefnyddio eu sgiliau cyfathrebu i ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth, syniadau ac emosiynau, defnyddio sgiliau rhif, cyfrifo a dehongli eu canfyddiadau a'u cyflwyno a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau cwricwlaidd.
7. Sicrhau y defnyddir dulliau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau ymchwilgar a bywiog, y gallu i feddwl drostynt eu hunain, meddwl yn greadigol, i gwestiynu a thrafod yn rhesymegol, gwneud penderfyniadau, i ddatrys problemau real ac i weithio'n annibynnol.
8. Darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a fydd o gymorth i ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.
9. Darparu cwricwlwm eang a pherthnasol, cydlynus, ysgogol, a phleserus sy'n datblygu y dysgwr ganolog i'w lawn botensial.
10. Annog cyswllt rhwng ysgolion â'r cartref, y gymuned, ysgolion eraill (meithrin, cynradd ac uwchradd), diwydiant a masnach, yr Awdurdod Addysg ac asiantaethau perthnasol eraill.
11. Sicrhau bod pob maes yn rhoi sylw i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd.

### **Mynediad a Chyfleoedd Cyfartal**

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob dysgwr gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i'r Cwricwlwm.

Lle bo'n briodol, ceir darpariaeth wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn pob disgybl i'w llawn botensial.

Mabwysiadwyd 27-03-14 adolygir yn flynyddol 21 – 05-15

Arwyddwyd \_\_\_\_\_.

Cadeirydd y Llywodraethwyr

